OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3097 (Cy.281)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*21 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym	- -	*23 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl iddo ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**), â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol ac â chynrychiolyddion ysgolion sy'n darparu lleoedd a gynorthwyir o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(1), (2), (5) a (9) o'r Ddeddf honno(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 23 Tachwedd 2006.

(2) Mae Rheoliad 3 yn gymwys o ran Cymru ynghylch cwestiwn o beidio â chasglu perthnasol.

(3) Ym mharagraff 2 uchod, ystyr "cwestiwn o beidio â chasglu perthnasol" yw cwestiwn o beidio â chasglu o dan Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997 ac—

(a) sy'n codi ynglŷn â blwyddyn ysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2006; a

(b) nas penderfynwyd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005

2. Ar ddiwedd paragraff (3) o reoliad 1 o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005(**3**), mewnosoder "cyhyd ag nad yw'r cwestiwn yn un a gyfeirir at baragraff (3) o reoliad 1 o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006".

(**1**) 1997 p. 59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).
(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru: gweler Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a'r cofnod o ran Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 yn Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2005/2838 (Cy. 202).

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(4) a (6), yn lle "£1,575" ym mhob man y'i gwelir rhodder "£1,625".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, rhodder "£12,470" yn lle "£12,182".

(4) Yn lle'r tabl sy'n dilyn paragraff 2(1) o'r Atodlen honno, rhodder y tabl canlynol—

(1) Part of relevant income to which specified percentage applies	*(2) Only assisted pupil (%)*	*(3) Each of two assisted pupils (%)*	*Each of three assisted pupils (%)*
That part (if any) which exceeds £12,304 but does not exceed £13,380.	9	6.75	5.25
That part (if any) which exceeds £13,380 but does not exceed £14,472.	12	9	7
That part (if any) which exceeds £14,472 but does not exceed £16,637.	15	11.25	8.75
That part (if any) which exceeds £16,637 but does not exceed £19,977.	21	15.75	12.25
That part (if any) which exceeds £19,977 but does not exceed £24,331.	24	18	14
That part (if any) which exceeds £24,331	35	24.75	19.25

(**4**) O.S. 1997/1968. Offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1726, O.S. 1998/1966, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1938 (Cy. 136), O.S. 2001/2680 (Cy. 221), O.S. 2002/1879 (Cy. 188), O.S. 2003/1854 (Cy. 204), O.S. 2004/1812 (Cy. 197) ac O.S. 2005/2838 (Cy. 202).